------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 205(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**

Heledd Fychan (Canol De Cymru): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad yn ymateb i'r newyddion bod dros i 100 o swyddi gyda chwmni Everest mewn perygl o'u colli yn Rhondda Cynon Taf?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau - Gaeaf cynhesach: P-06-1326 Dylai’r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

(60 munud)

**NDM8559** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau, ‘Gaeaf cynhesach: P-06-1326 Dylai’r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2024.

**Dogfennau ategol**

Ymateb Ofgem i adroddiad y Pwyllgor Deisebau (Saesneg yn unig)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Adolygiad Cass

(30 munud)

**NDM8563** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r adolygiad Cass a gomisiynwyd gan GIG Lloegr i wneud argymhellion ar sut i wella gwasanaethau hunaniaeth rhywedd y GIG, a dynnodd sylw at y ffaith y dylid bod yn ofalus iawn wrth ragnodi meddyginiaethau atal y glasoed a hormonau i bobl ifanc o dan 18 oed oherwydd diffyg ymchwil o ansawdd uchel i'w heffeithiau tymor hir.

2. Yn croesawu'r ffaith, oherwydd bod GIG Lloegr yn atal meddyginiaethau atal y glasoed, fod hyn wedi golygu nad oes llwybr i bobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru gael meddyginiaethau atal y glasoed.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) mabwysiadu argymhellion adolygiad Cass; a

b) sicrhau bod plant a'u rhieni yn cael eu cefnogi gyda chanllawiau synnwyr cyffredin, sy'n seiliedig ar ffeithiau.

Adolygiad Cass – Adolygiad annibynnol o wasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyhoeddi adolygiad Cass.

2. Yn nodi bod y GIG yng Nghymru yn comisiynu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc 17 oed ac iau gan y GIG yn Lloegr.

3. Yn nodi bod y GIG yn Lloegr wedi dod i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi diogelwch nac effeithiolrwydd clinigol hormonau atal y glasoed ar gyfer trin dysfforia rhywedd mewn plant a phobl ifanc ar hyn o bryd.

4. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r canllawiau trawsrywedd ar gyfer ysgolion, gan ystyried adolygiad Cass a barn rhanddeiliaid.

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at absenoldeb gwasanaethau hunaniaeth rhywedd arbenigol cynhwysfawr yng Nghymru.

Yn credu bod pob unigolyn, beth bynnag fo'u hunaniaeth rhywedd, yn haeddu parch, dealltwriaeth a mynediad at wasanaethau cymorth a gofal iechyd priodol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaeth hunaniaeth rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Rhoddion ymgyrch arweinyddiaeth a chod y gweinidogion

(30 munud)

**NDM8562** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pryder y cyhoedd ynghylch y posibilrwydd bod cod gweinidogol Llywodraeth Cymru wedi'i dorri mewn perthynas â rhoddion a dderbyniwyd gan y Prif Weinidog.

2. Yn nodi bod y Prif Weinidog wedi derbyn rhodd o £200,000 tuag at ei ymgyrch arweinyddiaeth Llafur Cymru gan y Dauson Environmental Group Limited yn dilyn benthyciad o £400,000 i'r cwmni gan Fanc Datblygu Cymru, a throseddau yn ymwneud â'r amgylchedd.

3. Yn galw ar y Prif Weinidog i benodi cynghorydd annibynnol i'r cod gweinidogol i ymchwilio i unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fodoli mewn perthynas â'r rhodd, gan gyfeirio'n benodol at bwyntiau i a ii o baragraff 1.3 o'r cod gweinidogol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cymryd Cod y Gweinidogion, a'r cyfrifoldebau y mae'n eu gosod ar Weinidogion Cymru, o ddifrif.

2. Yn nodi bod y penderfyniadau a wneir gan Fanc Datblygu Cymru ynghylch benthyca a buddsoddi yn cael eu gwneud yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu:

a) nad yw'r Prif Weinidog wedi dychwelyd y rhodd i Dauson Environmental; a

b) nad yw'r Blaid Lafur wedi ymrwymo i ddychwelyd unrhyw rodd sydd yn weddill gan Dauson Environmental.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Uchafswm ar roddion gwleidyddol

(60 munud)

**NDM8561** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyfraniad o £200,000 a wnaed i'r Prif Weinidog yn ystod etholiad arweinyddiaeth Llafur Cymru, a'i ddatganiad ar Gofrestr Buddiannau'r Aelod.

2. Yn credu nad yw'r cyhoedd yn cymeradwyo derbyn y rhodd hon.

3. Yn cytuno y dylid gosod uchafswm blynyddol ar y rhoddion gwleidyddol y gall unrhyw Aelod unigol o'r Senedd eu derbyn gan unrhyw unigolyn neu endid.

4. Yn galw ar y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd a Chod Ymddygiad yr Aelodau a fyddai'n rhoi'r uchafswm ar waith.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb i ddatgan buddiannau ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau a nodi datganiadau o'r fath lle bo'n berthnasol mewn cyfraniadau ysgrifenedig a llafar i Fusnes y Senedd.

2. Yn nodi ei bod yn ofynnol i Aelodau hefyd wirio bod rhoddion o £500 neu fwy wedi'u gwneud gan roddwyr a ganiateir, yn ogystal â rhoi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am fanylion llawn y rhoddion hynny sydd dros £2230.

3. Yn cydnabod bod pleidiau gwleidyddol, a'u cyrff llywodraethu cyfansoddol, yn gyfrifol am bennu a monitro cydymffurfedd â rheolau sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol presennol.

4. Yn galw ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i barhau i sicrhau bod yr holl Aelodau yn bodloni'r safonau ymddygiad uchaf.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8560** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Gaza - ymateb Cymreig.

**Cefnogwyr**

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Mai 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 24/04/2024 i'w hateb ar 01/05/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A’R GYMRAEG

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ61017 **(w)**

Pa drafodaethau mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi cynnal gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynglŷn â chynnydd darpariaeth addysg Gymraeg yn y cymoedd?

**Mark Drakeford** *Gorllewin Caerdydd*

2 OQ61009 **(d)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o ddibynadwyedd data Arolwg Llafurlu'r SYG mewn perthynas â Chymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

3 OQ60998 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Cabinet i gefnogi twf y sector ynni adnewyddadwy yng Ngogledd Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

4 OQ60992 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi yng ngorllewin Cymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

5 OQ61021 **(w)**

Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o faint ac effaith economaidd sectorau diwylliianol, celfyddydol a threftadaeth ein cenedl?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OQ61015 **(w)**

Sut mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod trefniadau hyfforddiant deintyddiaeth yng Nghymru yn cynhyrchu gweithlu sy’n diwallu anghenion ieithyddol plant ac oedeolion yn Arfon?

7 **Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

OQ61023 **(e)**

Beth yw disgwyliadau'r Ysgrifennydd Cabinet o gwmnïau o ran darparu buddion cymunedol diriaethol mewn perthynas â phrosiectau cynhyrchu ynni?

8 **Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ61003 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru wrth weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg?

9 **Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

OQ61016 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cadwyn gyflenwi'r sector ynni yng Ngorllewin De Cymru?

10 **Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

OQ61019 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet amlinellu sut mae'r toriadau i gyllideb y rhaglen brentisiaethau yn cydymffurfio â dyletswydd economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru?

11 **Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ61027 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid busnes yn cael ei ddyrannu mewn modd cyfrifol?

12 **Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ61028 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer yr economi yng Ngogledd Cymru?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

1 **Mark Drakeford** *Gorllewin Caerdydd*

OQ61008 **(d)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar yr ymdrechion i amrywiaethu'r gweithlu deintyddol?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

2 OQ60995 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal clefydau drwy hyrwyddo byw'n iach?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ61025 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â rhestrau aros y GIG?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ61018 **(e)**

Pa waith cynllunio gweithlu, hyfforddiant, a datblygu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar gyfer deintyddiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ61026 **(e)**

Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngorllewin De Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

6 OQ61013 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu'n cael gofal priodol yn y gymuned?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

7 OQ61022 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynyddu cymorth iechyd meddwl ar-lein i bobl Islwyn?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

8 OQ61010 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddatblygu canolfan gofal iechyd amlddisgyblaethol newydd yng Nghaergybi?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

9 OQ61006 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ynglyn a'r adolygiad diogelu unedig sengl a'r prosesau cysylltiedig?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

10 OQ61020 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i rhoi i gyflwyno strategaeth genedlaethol ar gyfer tiwmorau'r ymennydd?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

11 OQ61002 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru?

**Buffy Williams** *Rhondda*

12 OQ60997 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd i'w cymryd dros weddill tymor y Senedd hon fel rhan o'r cynllun iechyd menywod?